# Storio celfi i'w defnyddio mewn cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau bod yr holl gelfi yn cael eu storio'n ddiogel. Mae gofyn ichi gysylltu'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Gelfi, adnabod offer a llefydd storio addas a chynnal cofnodion cywir.

Gall celfi fod naill ai yn rhai sydd wedi'u llogi, neu rai sy'n perthyn i'r cwmni cynhyrchu, neu yn gynnyrch lleoli, neu yn bob un o'r rhain.

Mae gofyn ichi gael gafael ar a storio offer a dodrefn fel ffonau, silffoedd neu ddesgiau. Mae hefyd gofyn ichi gael gafael ar a storio nwyddau bwytadwy fydd efallai angen eu hamnewid e.e. diodydd neu sigaréts yn ogystal â sicrhau bod celfi eraill fel llestri a llestri gwydr yn cael eu glanhau yn lân.

Efallai bydd y safon hon yn addas ar gyfer rôl y Stôr-geidwad Celfi* neu Gynorthwy-ydd y Stôr-geidwad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. trafod yr holl ofynion celfi sydd wedi'u hadnabod yn y dadansoddiad sgript 2. gosod ystafell gelfi ddiogel gyda digon o le yno ar gyfer swyddfa a storfa ynghyd â chyfleusterau hylendid priodol 3. paratoi rhestr o'r celfi sydd eu hangen 4. adnabod y celfi gyda gofynion storio penodol 5. cynllunio i ryddhau celfi yn unol â gofynion ac amserlenni cynhyrchu 6. sicrhau bod yr holl gelfi yn lân ac wedi'u paratoi yn lanwaith i'w defnyddio 7. cysylltu gyda staff cludiant ynghylch gofynion symud y celfi 8. trefnu bod celfi yn cael eu dychwelyd, storio, ailgylchu neu eu gwaredu pan na fydd eu hangen mwyach 9. cynnal a storio cofnodion a sicrhau eu bod ar gael yn ôl y gofyn 10. cydymffurfio gyda deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocolau iechyd a diogelwch

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y dadansoddiad sgript a'r amserlen gynhyrchu
2. pwysigrwydd yr holl gelfi yn y cynhyrchiad, beth bynnag fo eu gwerth ariannol
3. sut i gysylltu'n brydlon ac effeithiol gydag aelodau eraill o staff
4. pa offer a dodrefn sydd eu hangen yn yr ystafell gelfi
5. sut i adnabod celfi gyda gofynion storio penodol fel eitemau bregus neu nwyddau bwytadwy
6. pa offer na ellir eu storio ar gyfer ail-ffilmio fel nwyddau bwytadwy
7. y mathau o gelfi fydd angen eu glanhau a'u paratoi i'w defnyddio
8. goblygiadau costau penodol sydd ynghlwm â cholli, neu wneud difrod i, eitemau gosod cynnyrch
9. sut i drefnu bod celfi yn cael eu symud i ac o'r storfa yn unol â gofynion ac amserlenni cynhyrchu
10. deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocolau iechyd a diogelwch
11. pa gelfi a deunyddiau mae modd eu hailgylchu a'r dulliau ailgylchu perthnasol
12. pwysigrwydd cadw cofnodion cywir

Storio celfi i’w defnyddio mewn cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPRP4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Pobl Broffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Celfi ar gyfer Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | celfi; storio celfi; cynyrchiadau; dadansoddiad sgript; amserlen gynhyrchu; nwyddau bwytadwy; ailgylchu; |